# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol - Proffil dwy dudalen

## *Technoleg Gynorthwyol (PR016)*

Dengys y proffil hwn y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen

Cynlluniwyd y rhaglen Technoleg Gynorthwyol i rymuso unigolion oedrannus, gan gynnwys y rhai sy'n byw gyda dementia, trwy ddarparu cymorth cynhwysfawr a mesurau diogelwch yn eu cartrefi. Yn greiddiol iddo, mae'n cynnig gwasanaeth ymateb brys 24/7 trwy larymau mwclis Lifeline, gan sicrhau cymorth ar unwaith yn ystod sefyllfaoedd argyfyngus fel cwympo. Mae gwiriadau lles rhagweithiol yn diogelu lles cyfranogwyr ymhellach, gan ymyrryd yn gyflym os oes angen, i wirio diogelwch a mynd i'r afael â phryderon sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r rhaglen yn buddsoddi mewn adnoddau i wella effeithiolrwydd, gan gynnwys technegwyr ychwanegol i osod a chynnal a chadw technolegau cynorthwyol yn fedrus. Mae gosodiadau diogel allweddol yn cyflymu mynediad i ymatebwyr dynodedig, gan leihau amseroedd ymateb a sicrhau cymorth prydlon. Yn ogystal, mae gwelliannau mewn adnoddau trin galwadau yn y Ganolfan Derbyn Larwm yn gwneud yn fawr o ymatebolrwydd, gan sicrhau prosesu rhybuddion yn gyflym.

Mae unigolion oedrannus yn elwa ar fwy o sicrwydd a hyder yn eu gallu i fyw'n annibynnol, gyda chefnogaeth amgylchedd gofalgar a rhagweithiol. Ar gyfer gofalwyr di-dâl, mae'r rhaglen yn lleddfu straen trwy ddarparu cymorth brys dibynadwy, gan wella tawelwch meddwl cyffredinol a'u galluogi i ganolbwyntio ar agweddau emosiynol a chwmnïaeth o ofal.

Yn gyffredinol, dengys y rhaglen Technoleg Gynorthwyol ddull cyfannol o heneiddio mewn lle, gan hyrwyddo urddas, diogelwch ac ansawdd bywyd i unigolion oedrannus a'u gofalwyr fel ei gilydd.

### Cynnyrch RIF:

*Model gofal sylfaenol:*

Atal a Chydlynu Cymunedol

*Grŵp/au poblogaeth â blaenoriaeth:*

Pobl hŷn

*Galluogwyr:*

Cynllunio a chomisiynu integredig

Hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol

Datblygu ac integreiddio'r gweithlu

*Dull rhanbarthol:*

Darperir y rhaglen gan CBS RhCT, BIP CTM, a phartneriaid trydydd sector, ac mae'n gweithredu yn RhCT yn unig ar hyn o bryd.


### Blaenoriaeth (Cysylltiedig â'r Cynllun Ardal)

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn mwynhau iechyd a lles da ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn hirach.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartref cyhyd â phosibl, neu i symud yn ôl adref cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

Bydd pobl â dementia a'u teuluoedd yn cael mynediad at y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

### Gwariant prosiect – £1,509,000 (BA 2023/24)




### *Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:*

| |
|---|
| BIP CTM |
| CBS RhCT |
| |
| Interlink |
| VAMT |
| Sector Gwirfoddol |


### *Crynodeb o wariant:*

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu ystod ehangach o wasanaethau cymorth adsefydlu sy'n gweithredu ar draws RhCT yn unig. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.


## Allbynnau rhaglen (ffigurau blynyddol):
## (gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau gan ymatebwyr | 5910 |
| Nifer yr ymweliadau gan ymatebwyr ar gyfer codwm | 2267 |
| Nifer y gosodiadau AT | 1278 |
| Nifer yr atgyfeiriadau SW ar gyfer pecynnau teleofal | 733 |
| Nifer y bobl sy'n cael sgwrs 'beth sy'n cyfri' | 733 |
| Nifer y treialon 6 wythnos | 288 |
| | |

## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)
## (Rhifau)




## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)




## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Dangosodd y rhaglen lwyddiant sylweddol wrth gefnogi unigolion i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel gartref. Drwy ei wasanaeth ymateb 24 awr, rheolwyd 5,910 o ymweliadau gan ymatebwyr, gan gynnwys 2,267 yn dilyn codymau, gan atal 5,073 o achosion o gludo cleifion i'r ysbyty i bob pwrpas. Mae'r ymyriad amserol hwn nid yn unig yn lleddfu'r pwysau ar y gwasanaethau brys ond hefyd yn hybu ymreolaeth a llesiant unigol.

Mae elfennau allweddol, fel gosodiadau a sgyrsiau "Beth sy'n Cyfri", wedi gwella hygyrchedd a phersonoleiddio cymorth. Mae gwiriadau lles rhagweithiol a phecynnau teleofal y rhaglen, 367 o rai newydd a gychwynnwyd, yn dangos ymrwymiad i ofal cynhwysfawr.

Mae cyfraddau bodlonrwydd uchel yn adlewyrchu effaith y rhaglen ymhellach; yn ogystal, nododd 733 o unigolion fod ganddynt fynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad angenrheidiol, gan atgyfnerthu rôl y rhaglen o ran grymuso defnyddwyr.

## Effaith y rhaglen (ansoddol):

Trwy ddarparu gwasanaeth ymateb 24 awr, mae'r rhaglen yn cynnig rhwyd ddiogelwch hanfodol sy'n sicrhau cymorth amserol yn ystod argyfyngau, gan wella ymdeimlad unigolion o ddiogelwch a thawelwch meddwl yn sylweddol. Mae'r cymorth uniongyrchol hwn yn arbennig o fuddiol i'r henoed, pobl ag anableddau, a'r rhai â chyflyrau cronig, gan eu galluogi i aros yn eu cartrefi'n fwy hyderus.
Tynna'r adborth sylw at lwyddiant y rhaglen o ran meithrin amgylchedd cefnogol a chysurlon. Dywedodd llawer o unigolion eu bod yn teimlo'n fwy diogel gartref oherwydd yr ymateb prydlon ac effeithiol i argyfyngau, yn ogystal â'r gwiriadau lles rhagweithiol. Mae hyn nid yn unig yn gwella diogelwch corfforol ond hefyd yn cyfrannu at eu lles emosiynol, gan leihau pryder am argyfyngau iechyd posibl.
Mae'r rhaglen hefyd yn lleddfu'r baich ar ofalwyr. Drwy sicrhau bod unigolion yn gallu cael cymorth proffesiynol, gall gofalwyr gael rhyddhad o'r effrogarwch cyson sydd ei angen i gefnogi eu hanwyliaid, gan wybod bod cymorth ar gael yn rhwydd. At hynny, mae'r cydweithio â gwasanaethau cymunedol, meddygon teulu a gweithwyr cymdeithasol wedi hwyluso agwedd gyfannol at ofal, gan fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol a llesiant hirdymor.
I grynhoi, cafodd y rhaglen effaith ansoddol sylweddol drwy hybu annibyniaeth, sicrhau diogelwch, a gwella llesiant unigolion, a chefnogi gofalwyr a gwneud y gorau o adnoddau gofal iechyd cymunedol ar yr un pryd.
Er gwaethaf heriau, mae cyflawniadau'r rhaglen o ran dyrannu adnoddau, gofal ataliol, a chymorth cymunedol yn amlwg. Trwy feithrin annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau brys, mae'r rhaglen yn gwneud y gorau o adnoddau gofal iechyd, gan wella effeithlonrwydd system gyffredinol ac ansawdd gofal.

## Argymhellion:

**Parhau i ariannu'r Rhaglen.**

Dangosodd y rhaglen dystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl y mae'n eu cefnogi a'u gofalwyr/teulu.

Mae'r rhaglen gyfan yn elfen allweddol o'r RIF a bydd yn rhan o gynlluniau'r dyfodol ynghylch darparu'r 2 lwybr newydd. Bydd yn rhan annatod o gefnogi pobl i aros yn annibynnol, yn ddiogel gartref ac adref o'r ysbyty ar ôl cael eu derbyn yno.

**Ystyriaethau ychwanegol:**

**Buddsoddiad cynaliadwy:** Dylid sicrhau cyllid hirdymor i gynnal ac ehangu gwasanaethau'r rhaglen.

**Integreiddio pellach gyda systemau iechyd a gofal cymdeithasol**: Dylid parhau i gryfhau partneriaethau gyda rhanddeiliaid.

**Ehangu'r rhaglen:** Dylid ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen i gyrraedd mwy o unigolion, gan dargedu poblogaethau bregus. Dylid ystyried mentrau allgymorth i godi ymwybyddiaeth a sicrhau mynediad teg i fuddion y rhaglen ar draws y rhanbarth. Dylid teilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion penodol grwpiau demograffig amrywiol.